Dirwyon parcio a ffioedd parcio

Dylech wirio yn gyntaf p'un ai yr ydych wedi derbyn dirwy parcio ar dir cyhoeddus neu ffi parcio ar dir preifat oherwydd mae'r rheolau yn wahanol.

Dirwyon parcio ar dir cyhoeddus

Os ydych yn parcio ar **heol gyhoeddus** ac nid ydych yn dilyn y rheolau parcio, mae'n bosib y bydd yn rhaid i chi dalu dirwy parcio. Yr enw swyddogol a roddir ar ddirwy parcio yw **hysbysiad cosb benodedig** neu **hysbysiad o dâl cosb**. Mae'r rheolau ynglŷn â'r rhain yn dibynnu ar bolisi'r awdurdod lleol lle parcioch. Mewn llawer o awdurdodau lleol, nid yw parcio yn fater troseddol a'r cyngor sy'n gyfrifol am hysbysiadau cosb benodedig neu hysbysiadau o dâl cosb yn hytrach na'r heddlu. Fodd bynnag, mewn rhai ardaloedd, mae peidio â dilyn y rheolau parcio yn drosedd a'r heddlu a'r llys ynadon sy'n gyfrifol am yr hysbysiadau hyn.

Hysbysiadau cosbau penodedig a hysbysiadau o dâl cosb os mai'r heddlu sy'n gyfrifol amdanynt

Os ydych yn cyflawni trosedd parcio, gall swyddog heddlu neu warden traffig roi hysbysiad cosb ar eich cerbyd. Bydd manylion y drosedd wedi'u nodi arno.

Os ydych yn derbyn eich bod wedi cyflawni'r drosedd, gallwch dalu'r swm y mae'r heddlu yn gofyn amdano. Os ydych yn talu o fewn y cyfnod penodedig, gellir lleihau swm y mae'n rhaid i chi ei dalu. Bydd y rhybudd yn nodi sut a phryd i dalu.

Os oeddech wedi cyflawni'r drosedd ond nid ydych yn talu o fewn y cyfnod penodedig, bydd **'rhybudd i'r perchennog'** yn cael ei anfon yn gofyn am daliad. Os nad ydych yn talu o fewn yr amser penodol, bydd 50% yn cael ei ychwanegu at y swm. Caiff ei gofrestru fel trosedd a **gallech gael eich anfon i'r carchar os nad ydych yn talu**.

Os nad ydych yn cytuno eich bod wedi cyflawni'r drosedd, gallwch ofyn am wrandawiad llys drwy lenwi Rhan III ar gefn yr hysbysiad cosb a'i dychwelyd i'r cyfeiriad a ddarperir. Byddwch yna yn derbyn gwŷs i fynychu llys ynadon.

Os nad chi oedd perchennog y cerbyd pan gafodd ei barcio'n anghyfreithlon, gallwch wneud datganiad, o'r enw **datganiad statudol**, i ddweud nad chi oedd y perchennog. Yn yr achos hwn, ni fydd yn rhaid i chi dalu.

Hysbysiadau cosbau penodedig a hysbysiadau o dâl cosb os mai'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol amdanynt

Os ydych yn parcio yn anghyfreithlon, bydd swyddog gorfodaeth sifil yr awdurdod lleol yn gosod hysbysiad cosb ar eich cerbyd. Mewn rhai amgylchiadau, maen nhw hefyd yn gallu eu hanfon atoch. Bydd manylion y drosedd ar yr hysbysiad.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Os nad ydych yn cytuno eich bod wedi cyflawni trosedd, gallwch apelio i'r awdurdod lleol. Bydd yr hysbysiad cosb yn dweud wrthych sut i apelio a'r terfynau amser. Mae'n bosib y byddwch am apelio oherwydd:

- nad chi oedd perchennog y cerbyd pan gafodd ei barcio'n anghyfreithlon. Bydd yn rhaid i chi ddarparu tystiolaeth o hyn, er enghraifft, derbynneb a chopi o ffurflen gofrestru'r DVLA
- nad oedd yr amser ar y mesurydd wedi dod i ben, felly nid oeddech wedi parcio'n anghyfreithlon
- roedd eich cerbyd wedi torri lawr, felly nid oeddech wedi parcio yn anghyfreithlon
- roeddech yn llwytho neu ddadlwytho eich cerbyd yn gyfreithlon. Gallai eich tystiolaeth gynnwys derbynneb neu ddanfoneb o'r garej.

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ystyried eich achos a dweud wrthych p'un ai ei fod yn derbyn neu'n gwrthod eich apêl. Os yw'n derbyn eich apêl, bydd yn dileu eich hysbysiad cosb. Os yw'n gwrthod eich apêl, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol anfon hysbysiad gwrthod atoch. Dylech hefyd dderbyn manylion ynglŷn â sut i apelio i'r Tribiwnlys Cosbau Traffig neu'r Gwasanaeth Apeliadau Parcio a Thraffig. Am fanylion cyswllt y Tribiwnlys Cosbau Traffig, gweler Sut i apelio.

Os ydych yn derbyn eich bod wedi parcio yn anghyfreithlon, gallwch dalu'r swm sy'n ddyledus. Os ydych yn talu o fewn y cyfnod penodol, caiff y swm sydd angen i chi ei dalu ei leihau. Bydd y rhybudd yn dweud wrthych sut a phryd i dalu.

Os nad ydych yn apelio na thalu, bydd **'rhybudd i'r perchennog'** yn cael ei anfon atoch yn gofyn am daliad. Os anfonwyd yr hysbysiad o dâl cosb atoch drwy'r post, mae hefyd yn gweithredu fel rhybudd i'r perchennog. Rhaid i'r rhybudd hwn gael ei anfon atoch o fewn chwe mis. Os nad ydych yn talu o fewn y cyfnod penodedig, bydd **tystysgrif arwystl** yn cael ei hanfon atoch a bydd 50% yn cael ei ychwanegu at y swm sy'n ddyledus. Bydd angen i chi dalu'r awdurdod lleol, ond ni fyddwch wedi cyflawni trosedd.

Os nad ydych yn talu o fewn y cyfnod cywir, gall yr awdurdod lleol gofrestru'r ddyled fel **dyfarniad llys sirol (CCJ)**. Bydd yr awdurdod lleol yn anfon y gorchymyn llys hwn atoch ynghyd â ffurflen arall o'r enw **datganiad gan dyst**. Mewn rhai achosion, er enghraifft os nad ydych wedi derbyn 'rhybudd i'r perchennog', gallwch herio'r gorchymyn drwy wneud datganiad gan dyst. Mae'n rhaid i chi lofnodi'r datganiad gwirionedd. Mae hyn yn golygu eich bod yn addo bod y datganiad yn wir. Os nad ydych yn dweud y gwir, mae hyn yn ddifrifol iawn a gallech gael dirwy neu gael eich anfon i'r carchar.

Os nad ydych yn talu neu'n dychwelyd y datganiad gan dyst, gall yr awdurdod lleol wneud cais i'r llys am orchymyn er mwyn anfon **beiliaid** i'ch cartref. Gallent gymryd eich eiddo personol o'ch cartref ond fel arfer byddent yn cymryd eich car a'i werthu, p'un ai ei fod wedi cael ei barcio ar yr heol neu ar eich tir chi.

Ffioedd parcio ar dir preifat

Os ydych yn **parcio ar dir preifat** heb ganiatâd (neu'n aros yn hirach na ganiateir eich taliad, er enghraifft, mewn maes parcio siop), mae'n bosib cewch hysbysiad i

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

dalu ffi parcio. Gallai ymddangos fel hysbysiad cosb benodedig swyddogol ond nid dyna ydyw. Mae'n hysbysiad sy'n dweud wrthych y bwriedir eich cymryd i'r llys am dresbasu, a bydd yn eich caniatáu i dalu ychydig o arian i setlo'r achos tu allan i'r llys. **Nid yw hyn yn fater troseddol**. Os ydych yn derbyn un o'r hysbysiadau hyn, mynnwch gyngor gan Ganolfan Cyngor ar Bopeth.

Nid oes proses apelio annibynnol ar gyfer ffioedd parcio ar dir preifat. Fodd bynnag, os yw'r gweithredwr parcio yn penderfynu mynd â chi i'r llys sirol, gallai'r llys benderfynu nad oes yn rhaid i chi dalu'r ffi oherwydd aneglurder y rheolau parcio. Nid oes gan weithredwr parcio'r hawl gyfreithiol i adennill ffi parcio heb gymryd camau yn y llys yn eich erbyn.

Gallwch hefyd edrych ar wefan Cymdeithas Parcio Prydain sy'n gweithredu fel cymdeithas masnachu ar gyfer cwmnïau sy'n gorfodi rheoliadau parcio ar dir preifat. Mae'n rhaid i aelodau gydymffurfio â Chod Ymarfer cyhoeddi ffioedd parcio. Cewch hyd i'r Cod Ymarfer hwn yn www.britishparking.co.uk.

Sut i apelio

Tribiwnlys Cosbau Traffig

Gallwch apelio i'r Tribiwnlys Cosbau Traffig yn erbyn yr Hysbysiad o Dâl Cosb a gyhoeddwyd unrhyw le yn Lloegr a Chymru ar wahân i Lundain. Mae'n rhaid i'r Hysbysiad fod wedi cael ei gyhoeddi gan yr awdurdod lleol sy'n gorfodi rheoliadau parcio sifil.

Tribiwnlys Cosbau Traffig
Barlow House
Minshull Street
Manceinion
M1 3DZ
Rhif ffôn: 0161 242 5252
Ffacs: 0161 242 5265
E-bost: info@trafficpenaltytribunal.gov.uk
Gwefan: www.trafficpenaltytribunal.gov.uk

Y Gwasanaeth Apeliadau Parcio a Thraffig

Gallwch apelio i'r Gwasanaeth Apeliadau Parcio a Thraffig yn erbyn hysbysiad cosb benodedig a gyhoeddir yn Llundain.

Y Gwasanaeth Apeliadau Parcio a Thraffig
PO Box 279
Chertsey
Surrey
KT16 6BU
Rhif ffôn: 020 7520 7200
Gwefan: www.parkingandtrafficappeals.gov.uk

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Y Ganolfan Gorfodi Traffig
Gallwch apelio i'r Ganolfan Gorfodi Traffig yn erbyn gorchymyn ar gyfer hysbysiad o dâl cosb na dalwyd.

Y Ganolfan Gorfodi Traffig
The Court Service
4th Floor
St Katharine's House
21- 27 St Katharine's Street
Northampton
NN1 2LH

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

PATROL
Cewch wybodaeth am rheoliadau parcio cynghorau yn Lloegr (tu allan i Lundain) a Chymru sy'n rhan o'r cynllun gorfodi parcio sifil ar wefan PATROL yn www.patrol-uk.info

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Clampio olwynion
- Delio â phobl y mae arnoch arian iddynt
- Cymorth gyda dyled
- Dirwyon llys
- Y daflen gyllido
- Beiliaid

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 10 Chwefror 2012, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk – lle gallwch lawrlwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr